*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 3046

## Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;

(b) mae i "claf cymwys" yr un ystyr a roddir i "*qualifying patient*" yn adran 130C o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**);

(c) mae i "cleifion anffurfiol cymwys Cymru" yr un ystyr a roddir i "*Welsh qualifying informal patients*" yn adran 130J o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**).

(**1**) 1983 p.20. Mewnosodwyd adran 130C gan adran 30 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p.12).
(**2**) Mewnosodwyd adran 130J gan adran 36 o'r Mesur.